**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/FM/0361/25

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Gorffennaf 2025

Annwyl Delyth

Yn dilyn fy ymddangosiad yn y sesiwn Craffu Blynyddol ar 18 Mehefin, rwy'n falch o amgáu'r cyntaf o'n diweddariadau chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol (IDP).

Gan mai hwn yw'r diweddariad cyntaf, byddwn yn croesawu adborth ar fformat a chynnwys yr adroddiad i sicrhau ei fod yn addas i'r diben. Fodd bynnag, hoffwn ailadrodd y pwyntiau a wnes yn ystod y sesiwn ynglŷn â chael adnoddau cyfyngedig o fewn y tîm Cysylltiadau Rhyngwladol, felly hoffwn i chi sicrhau bod unrhyw fireinio yn rhesymol ac nad ydynt yn tynnu sylw at gyflawni craidd yr IDP.

Byddwch yn sylwi bod lefelau amrywiol o wybodaeth yn erbyn pob un o'r 15 cyflawniad, mae hyn oherwydd ffocws ar yr economi yn ystod y chwarter hwn. Byddwch hefyd yn nodi, oherwydd cyfyngiadau masnachol ac ystyriaethau diogelwch, nad ydym yn gallu darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am Uwchgynhadledd Buddsoddi Cymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, derbyniwch fy sicrwydd bod fy swyddogion yn gweithio'n galed ar drefnu'r Uwchgynhadledd, gan sicrhau'r lefel gywir o gynrychiolwyr a siaradwyr, ac mae cwmnïau yr ydym wedi cysylltu a hwy ynglŷn â mynychu yn ddiweddarach eleni eisoes yn dangos diddordeb.

Yn yr un modd, mae cyfyngiadau allanol a osodwyd ar lywodraethau Cymru a'r DU gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ein hatal rhag adrodd gwybodaeth fanwl am ffigurau buddsoddi uniongyrchol tramor Cymru a bydd diweddariad ar y rhain yn cael ei ddarparu yn unol ag amserlen yr SYG.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n edrych ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,



**Eluned Morgan**

**<u>Cynllun Cyflawni Rhyngwladol - Diweddariad i'r Pwyllgor - Chwarter 1</u>**

Cyhoeddwyd y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol ym mis Ebrill. Dyma ddechrau blwyddyn bwysig i Gymru ar y llwyfan byd-eang. Mae'r cynllun yn amlinellu 15 maes ffocws allweddol i'w cyflawni yn ystod y 12 mis nesaf. Mae'r adroddiad chwarterol cyntaf hwn yn sôn am y gweithgareddau a'r llwyddiannau cynnar.

## Twf Economaidd

Mae sbarduno twf economaidd yn dal yn ganolog i'n hymdrechion rhyngwladol. Roedd timau Llywodraeth Cymru yng Nghymru a thramor wedi cyflawni wyth taith fasnach. Roedd hyn yn gyfle i 67 o gynrychiolwyr gael mynediad at farchnadoedd pwysig, cryfhau cysylltiadau a llunio perthnasoedd masnachol newydd; ochr yn ochr â chefnogi dros 150 o brosiectau allforio. Roeddem wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol i hyrwyddo cydweithio ac i ddenu buddsoddiad yn sectorau blaenoriaeth Cymru, gan osod y sylfeini ar gyfer Uwchgynhadledd Fuddsoddi Cymru.

Ar lefel wleidyddol, roedd ein tîm yng Ngogledd America - mewn partneriaeth agos â diwydiant - wedi cynnal sesiwn briffio benodol yng Nghyngres yr Unol Daleithiau i arddangos sector lled-ddargludyddion cyfansawdd Cymru sydd gyda'r gorau yn y byd a'i sgiliau a'i alluoedd eithriadol. Cafodd hyn ei atgyfnerthu gan erthyglau yn y Wall Street Journal a oedd yn codi ymwybyddiaeth o gryfderau Cymru ymhlith cynulleidfa ehangach a dylanwadol yn America. Roedd hyn yn rhoi sylw i'r cyfleoedd buddsoddi sydd ar gael yng Nghymru i gwmnïau sydd yn y sector hwn yn yr Unol Daleithiau.

## Cymru a Japan 2025

Aeth lansiad Cymru a Japan 2025 yn feiral gan gyrraedd miliynau yn fyd-eang gyda'r ffocws cychwynnol ar ddyfnhau cysylltiadau economaidd. I baratoi ar gyfer Uwchgynhadledd Fuddsoddi Cymru yn nes ymlaen eleni, fe wnaethom gynnal Arddangosfa Cymru i Fuddsoddwyr yn Tokyo ym mis Ebrill, a gynhaliwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio. Roedd y digwyddiad yn dod â dros 150 o entrepreneuriaid a busnesau blaenllaw o Japan at ei gilydd i edrych ar gyfleoedd i gydweithio'n hirdymor mewn meysydd lle mae Cymru'n rhagori - fel ynni adnewyddadwy a thrawsnewid digidol. Fe wnaethom gynnal ein "Diwrnod Cymru" cyntaf yn Expo 2025 yn Osaka lle cafodd dros 1000 o ymwelwyr flas ar ddiwylliant, bwyd a diod Cymru. Ym mis Mehefin, fe wnaethom gynnal Diwrnod Technoleg Iechyd Cymru i arddangos sector technoleg iechyd Cymru i dros 100 o westeion, dan arweiniad y Prif Swyddog Meddygol. Cafodd y digwyddiad ei gynnal mewn partneriaeth ag Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU, ac roedd yn tynnu sylw at arloesi yng Nghymru ac yn hyrwyddo masnach, buddsoddiad a chydweithio rhyngwladol.

Ar ben hynny, roedd 20 o gwmnïau wedi cymryd rhan yn yr Expo ac yn Arddangosfa Iechyd Japan. Roedd y cyfranogwyr wedi gallu ymgysylltu â sefydliadau ymchwil ac arloesi blaenllaw ledled Japan, gan gryfhau partneriaethau a chreu cyfleoedd newydd i gydweithio ar draws ymchwil, datblygu a buddsoddi.

I nodi ein bod wedi cyrraedd hanner ffordd ym Mlwyddyn Cymru a Japan, cynhaliodd Prif Weinidog Cymru a Llysgennad Japan yn y DU ddigwyddiad busnes ar y cyd yn Llysgenhadaeth Japan yn Llundain. Roedd y digwyddiad yn dod â chwmnïau Japaneaidd sydd eisoes yng Nghymru at ei gilydd i eirioli dros Gymru i ddarpar fuddsoddwyr newydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau ac i adeiladu ar y cysylltiadau hyn, gan sicrhau manteision hirdymor i Gymru, gan gynnwys rhagor o weithgarwch sy'n cynnwys Llysgennad Japan.

**Canlyniadau Iechyd**

Yng Nghymru, bu ffocws ar wella canlyniadau iechyd. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cynnal deialog polisi dros ddeuddydd yng Nghaerdydd. Roedd hyn yn rhan o'r Memorandwm Gyd-ddealltwriaeth gyda Sefydliad Iechyd y Byd. Roedd hyn wedi denu mynychwyr lefel uchel gan gynnwys Gweinidogion ac uwch swyddogion o lywodraethau Gwlad yr Iâ, y Ffindir a'r Alban. Roedd y digwyddiad yn cefnogi ein hymrwymiad i wella canlyniadau iechyd gartref a thramor drwy rannu arferion gorau, cryfhau cydweithio, a hyrwyddo dulliau gweithredu llywodraeth gyfan yng nghyswllt iechyd a llesiant.

Ym mis Mai, cynhaliodd Caerdydd Gynulliad Cyffredinol EUREGHA, gan roi sylw i Gymru a meithrin cydweithrediad Ewropeaidd ar flaenoriaethau iechyd. Roedd hyn hefyd yn gyfle i ddangos dulliau unigryw Cymru i gynulleidfa ryngwladol, fel sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn golygu bod yn rhaid gwreiddio cynaliadwyedd a meddwl yn y tymor hir wrth wneud penderfyniadau polisi iechyd.

**Yr Hinsawdd a'r Amgylchedd**

Y chwarter yma roeddem wedi rhoi blaenoriaeth i'n huchelgeisiau rhyngwladol o ran yr hinsawdd a'r amgylchedd. Yn dilyn Hotspot Economi Gylchol llwyddiannus y llynedd yng Nghymru, bu'r Dirprwy Brif Weinidog yn ymweld â Latfia i ddysgu am ei chynllun dychwelyd ernes llwyddiannus, gan weld yr arferion gorau er mwyn cyflwyno system debyg yng Nghymru. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio wedi croesawu dirprwyaeth, dan arweiniad Dirprwy Lywodraethwr Utah. Roeddent yn awyddus i ddysgu o'r ffordd roedd Cymru yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy fel rhan o'u nod i amrywio eu cymysgedd ynni. Roedd yr ymweliad yn ganlyniad uniongyrchol i ymgysylltiad ein tîm yng Ngogledd America ag Utah ar ôl gosod cerflun o seneddwraig gyntaf America - Martha Hughes Cannon a gafodd ei geni yn Llandudno - yn Statuary Hall, Washington D.C.

Yn Ynni Môr Cymru, cyhoeddwyd bod y cwmni ynni'r llanw Inyanga Marine Energy Group am fuddsoddi £2 filiwn, gan gefnogi agenda Twf Gwyrdd y Prif Weinidog. Yn Global Offshore Wind yn Llundain, rhoddwyd sylw i strategaeth gwynt ar y môr Cymru a'r cwmnïau sydd yn ein cadwyn gyflenwi. Yn Wind Europe yn Copenhagen, roedd y Prif Weinidog wedi ymuno â phanel ar seilwaith grid, wedi cwrdd â chwmnïau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau buddsoddi cenedlaethol, ac wedi hyrwyddo galluoedd yn y gadwyn gyflenwi i dros 15,000 o weithwyr proffesiynol yn y diwydiant.

Roedd y Dirprwy Brif Weinidog wedi cynrychioli Cymru yn y cyfarfod Gweinidogion Ewropeaidd Cynghrair Dan2 ym Mrwsel - rhwydwaith mwyaf y byd o lywodraethau is-genedlaethol sydd wedi ymrwymo i gyrraedd sero net erbyn 2050. Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar y rhan mae rhanbarthau'n ei chwarae wrth siapio polisi hinsawdd rhyngwladol cyn COP30, gan ddangos arweinyddiaeth Cymru yng nghyswllt siapio polisi hinsawdd byd-eang.

Roedd timau Llywodraeth Cymru ym Mrwsel a Chymru wedi croesawu dirprwyaeth o 30 o Bortiwgal, Sbaen, Ffrainc, Iwerddon a Chanada ar ymweliad â Gogledd Cymru fel rhan o'r prosiect TRANSATLANTIC. Roedd hyn yn datblygu cydweithrediad rhyngwladol o amgylch cynlluniau coridorau gwyrdd a datgarboneiddio porthladdoedd a thrafnidiaeth forol. Roedd hefyd yn hyrwyddo arloesedd yn yr economi las gylchol drwy arferion cynaliadwy sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.

Rhoddodd y Dirprwy Brif Weinidog araith yn nhrydedd Gynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Gefnforoedd. Roedd yn tynnu sylw at waith arloesol Cymru yn datblygu strategaethau llythrennedd cefnforol cenedlaethol a gefnogir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd y digwyddiad yn arddangos effaith drawsnewidiol y dull hwn, a chafodd sylw rhyngwladol, gyda sawl gwlad yn awyddus i ddysgu o arweinyddiaeth Cymru yn y meysydd hyn.

**Partneriaethau Addysg**

Mae'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol yn ymrwymo i wella partneriaethau a chanlyniadau addysg. Roedd Cymru wedi cynnal dau ddigwyddiad rhyngwladol mawr yn ystod y cyfnod hwn: y Gyngres Ryngwladol ar Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion a digwyddiad dysgu gan gymheiriaid gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Roedd y digwyddiadau hyn yn golygu bod addysgwyr yn gallu cyflwyno gerbron cynulleidfaoedd rhyngwladol gyda chanlyniadau uniongyrchol gan gynnwys cyfnewid gwybodaeth ac arferion gorau, ac effeithiau tymor hirach a ddisgwylir drwy brosiectau cydweithredol. Roedd dirprwyaethau o Iwerddon a Denmarc wedi ymuno â rhanddeiliaid o Gymru i drin a thrafod dysgu rhyngwladol. Bydd ôl-drafodaeth gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn sail i ddatblygu polisïau yn y dyfodol.

Mae tîm Llywodraeth Cymru yn India wedi bod yn cefnogi sectorau addysg bellach ac uwch Cymru drwy weithio mewn partneriaeth â Cymru Fyd-eang i gynnal digwyddiadau ac ymweliadau sy'n hyrwyddo prifysgolion Cymru. Bu cydweithio diweddar rhwng Siambr Fasnach Bengal a phrifysgolion Bengal yn edrych ar gyfleoedd ar gyfer symudedd myfyrwyr a phartneriaethau ymchwil gyda sefydliadau yng Nghymru. Yn y cyfamser, cynhaliodd Swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghanada ymweliad yn ddiweddar gan Colegau Cymru â Montreal, gan gefnogi eu hymdrechion ymgysylltu rhyngwladol

**Diplomyddiaeth Chwaraeon**

Yn dilyn y cyhoeddiad y bydd y Tour de France yn dod i Gymru am y tro cyntaf yn 2027, mae’r sylw wedi troi at Bencampwriaethau Pêl-droed Ewropeaidd y Merched yn y Swistir. Dyfarnwyd cyllid i 16 o brosiectau drwy’r Gronfa Cymorth i Bartneriaid gwerth £1m sydd wedi gweld partneriaid ledled Cymru yn dod at ei gilydd drwy ein model diplomyddiaeth Tîm Cymru i godi ein proffil, ein hunaniaeth a'n diwylliant ledled Cymru a’r tu hwnt. Mae'r uchafbwyntiau sydd wedi denu sylw byd-eang wedi cynnwys murlun o’r chwaraewraig pêl-droed Jess Fishlock yng Nghaerdydd - y murlun maint cae pêl-droed cyntaf yn Ewrop o chwaraewraig pêl-droed - ac AmdaniHi! digwyddiad dan arweiniad S4C sy'n dathlu'r rôl mae menywod wedi'i chwarae wrth siapio ein cenedl. Cafodd y gweithgaredd hwn ei gefnogi gan *Perthyn*, ymgyrch cyfryngau digidol sydd â ffocws rhyngwladol ac sy'n adrodd straeon y rhai sydd â chysylltiadau Cymreig i gynulleidfa ryngwladol. Bu ffocws hefyd ar yr effeithiau yng Nghymru. Mewn un prosiect a gafodd gymorth roedd British Council Cymru wedi cynhyrchu pecyn dosbarth i bobl ifanc Ewro25 i ddysgu rhagor am Ewrop, cydraddoldeb rhywedd ac ieithoedd yn ogystal â dathlu'r twrnamaint.

**Cyfrifoldeb ar Lefel Fyd-eang**

Roedd Cymru wedi ailddatgan ei hymrwymiad rhyngwladol i heddwch ac undod drwy gefnogi’r Academi Heddwch i gynnal Cynhadledd 'Gwireddu' y Ddeiseb Heddwch yn Aberystwyth. Roedd y digwyddiad yn dod â gwirfoddolwyr o Gymru a'r Unol Daleithiau at ei gilydd i nodi canmlwyddiant y Ddeiseb Heddwch Menywod ac yn edrych ar sut gall ei hetifeddiaeth ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol. Yn y gynhadledd, cyhoeddodd y Prif Weinidog gyllid ychwanegol i’r Academi Heddwch, sy’n golygu y bydd yn gallu datblygu mentrau addysg ac ymchwil heddwch. Bydd y cymorth hwn yn dyfnhau’r ymgysylltiad ag ysgolion, cymunedau a phartneriaid rhyngwladol, gan gryfhau rôl Cymru ymhellach o ran meithrin heddwch byd-eang a hwyluso cydweithrediadau academaidd a diplomyddol newydd.

Roedd swyddogion ym Mharis hefyd wedi sicrhau cefnogaeth UNESCO UK i Neges Heddwch ac Ewyllys Da'r Urdd, sy’n cydnabod bod y neges yn cyd-fynd â gwerthoedd byd-eang UNESCO. Ar ben hynny, roedd ein swyddfeydd yn y Dwyrain Canol wedi hwyluso deialog ar bartneriaeth bosibl rhwng yr Academi Heddwch a Phrifysgol Georgetown yn Qatar, gan osod y sylfeini ar gyfer cydweithio academaidd a mentrau sy'n canolbwyntio ar heddwch yn y dyfodol.

Roedd Cymru wedi parhau â’i hymdrechion datblygu rhyngwladol gyda dau leoliad Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol llwyddiannus yn Nwyrain Uganda. Roedd rhain yn canolbwyntio ar reoli gwastraff a gwella gofal iechyd mewn ysbyty gwledig. Cafodd rownd newydd o grantiau bach ei lansio i gefnogi sefydliadau yn y sector Datblygu ac Undod Rhyngwladol i wella bywydau yn rhyngwladol ac yma yng Nghymru.

**Astudiaeth Achos - Cymru ac Iwerddon**

Mae gan Gymru ac Iwerddon berthynas gref sy'n seiliedig ar gysylltiadau economaidd, diwylliannol, ieithyddol a pholisi. Yn 2021, lansiwyd y Cyd-ddatganiad Iwerddon-Cymru cyntaf i gynnal cydweithrediad agos ar ôl Brexit. Gan adeiladu ar y sylfaen honno, lansiodd y Prif Weinidog a'r Tánaiste Cyd-ddatganiad Iwerddon-Cymru 2030 wedi'i ddiweddaru ym mis Gorffennaf, gan adlewyrchu blaenoriaethau sy'n esblygu ac ymrwymiad o'r newydd i gydweithio.

Mae'r cytundeb diwygiedig yn ehangu ei gwmpas, gan ehangu'r flaenoriaeth Hinsawdd a Chynaliadwyedd i gynnwys Ynni a'r Amgylchedd, a gwella Addysg ac Ymchwil drwy gynnwys Arloesi. Mae'r diweddariadau hyn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau. Mae'r datganiad newydd yn amlinellu arwyddocâd meysydd blaenoriaeth, yn gosod amcanion a rennir, a'n dull o gyflawni. Mae'n canolbwyntio ar weithredu ac mae'n seiliedig ar fodel llywodraethu sydd wedi'i ddylunio i sicrhau bod y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon yn arwain at fanteision amlwg i bobl yn y naill wlad a'r llall. Bydd y Fforwm Gweinidogol blynyddol yn rhoi llwyfan i asesu'r cynnydd a chytuno ar flaenoriaethau strategol am y flwyddyn i ddod.

Yn Fforwm Cymru Iwerddon 2025, lle cafodd y datganiad newydd ei lansio, dangosodd Awyrofod Cymru sut mae cyllid Cymru Ystwyth yn galluogi busnesau bach a chanolig Cymru i feithrin partneriaethau newydd yn Iwerddon, gan arwain at ymweliadau dwyochrog a chydweithio parhaus mewn digwyddiadau awyrofod byd-eang mawr.

Roedd y fforwm hefyd wedi cael diweddariad gan Brif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Maresconnect, cwmni seilwaith ynni sy'n gosod rhyng-gysylltydd trydan dan y môr rhwng Cymru ac Iwerddon. Bydd y prosiect £1b yn creu 250 o swyddi amser llawn yn ystod y cyfnod adeiladu o dair blynedd ac yn helpu i leihau prisiau i ddefnyddwyr. Mae'r prosiect yn enghraifft amlwg o'r cydweithio rhwng Iwerddon a Chymru i sicrhau dyfodol carbon isel.

Mae'r gweithgareddau diweddar ar y cyd wedi parhau i gryfhau cysylltiadau diwylliannol ac economaidd. Roedd awduron o Gymru wedi cymryd rhan yng Ngŵyl Lenyddiaeth Ryngwladol Cúirt yn Galway, ac roedd cynrychiolwyr o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a Tramshed Tech wedi ymweld â Dulyn i gyfrannu at gynllunio clystyrau digidol. Roedd No Sleep Dance Theatre wedi cyflwyno gweithdy a pherfformiad yn Wexford, a digwyddiad diwylliannol yn Llundain - a gynhaliwyd ar y cyd â Llysgenhadaeth Iwerddon - gan ddathlu creadigrwydd a threftadaeth a rennir.

**Atodiad A - Tabl Cynnydd Cryno, sy'n cysoni gweithgareddau â Nodau'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol.**

| Elfen i'w chyflawni | Gweithgaredd |
|---|---|
| **Uwchgynhadledd Fuddsoddi Cymru** | Mae sensitifrwydd masnachol a diogelwch yn golygu nad oes modd adrodd ar hyn o bryd. |
| **Mewnfuddsoddiad** | - Mae swyddogion wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys Money2020, BIO USA a Sioe Awyr Paris, i hyrwyddo buddsoddiad ac i hybu cydweithio ar draws sectorau blaenoriaeth Cymru.<br>- Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio wedi cynnal arddangosfa i fuddsoddwyr yn Expo 2025 yn Osaka, gan dynnu sylw at y cyfleoedd sydd ar gael yn sectorau blaenoriaeth Cymru.<br>- Roedd y Prif Weinidog a Llysgennad Japan wedi trefnu digwyddiad ar y cyd a oedd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â buddsoddwyr presennol a phosibl o Japan ac arddangos tirwedd fuddsoddi Cymru. |
| **Cefnogi busnesau Cymru** | - Mae wyth taith fasnach wedi cael eu cyflawni sydd wedi golygu bod 67 o unigolion wedi gallu cael mynediad at farchnadoedd allweddol<br>- Mae 150 o brosiectau allforio wedi cael eu cefnogi. |
| **Blwyddyn Cymru a Japan** | - Cynhaliwyd Arddangosfa Cymru i Fuddsoddwyr yn Tokyo.<br>- Cynhaliwyd y "Diwrnod Cymru" cyntaf yn Expo 2025 yn Osaka, gan ddenu dros 1,000 o ymwelwyr ac arddangos diwylliant Cymru.<br>- Cafodd arloesedd Cymru mewn technoleg iechyd ei hyrwyddo mewn digwyddiad mawr ym mis Mehefin, dan arweiniad y Prif Swyddog Meddygol.<br>Roedd 20 cwmni wedi gallu ymgysylltu'n uniongyrchol â marchnadoedd Japan drwy gymryd rhan yn yr Expo ac Arddangosfa Iechyd Japan. |
| **Uchelgeisiau o ran yr amgylchedd a'r hinsawdd** | - Bu'r Dirprwy Brif Weinidog yn ymweld â Latfia i gael gweld yr arferion gorau ar gyfer cynllun dychwelyd ernes a chymerodd ran yn y cyfarfod Cynghrair Dan2 ym Mrwsel i siapio polisi hinsawdd byd-eang.<br>- Cafodd arweinyddiaeth Cymru ym maes ynni adnewyddadwy ei hyrwyddo drwy groesawu dirprwyaeth o Utah.<br>- Cyhoeddwyd buddsoddiad ynni'r llanw gwerth £2 filiwn yn Ynni Môr Cymru.<br>- Cafodd galluoedd gwynt ar y môr eu harddangos mewn digwyddiadau rhyngwladol mawr yn Llundain a Copenhagen.<br>- Cafodd partneriaethau byd-eang yn yr Economi Las eu cryfhau drwy gefnogi ymweliad TRANSATLANTIC yr UE â Gogledd Cymru.<br>- Cafodd arloesedd llythrennedd cefnforol Cymru sylw yng Nghynhadledd Cefnforoedd y Cenhedloedd Unedig. |

| | |
|---|---|
| **Diplomyddiaeth chwaraeon** | - Cafodd hunaniaeth a diwylliant Cymru eu hyrwyddo drwy ddigwyddiadau yng Nghymru a'r Swistir, gan gynnwys murlun yng Nghaerdydd yn anrhydeddu Jess Fishlock - y murlun maint cae pêl-droed cyntaf yn Ewrop o chwaraewraig pêl-droed.<br>- Cafodd rôl menywod mewn cymdeithas yng Nghymru ei dathlu drwy AmdaniHi!, dan arweiniad S4C.<br>Cyfarfu'r Prif Weinidog â darpar fuddsoddwr yn ystod ei hymweliad â'r Swistir i gefnogi tîm pêl-droed Merched Cymru. |
| **Perthyn** | - Mae Ymgyrch Perthyn yn parhau. Fel rhan o dwrnamaint Euro2025, cafodd fideo yn rhannu stori Prif Hyfforddwr Cymru, Rhian Wilkinson, ei rannu ar draws y cyfryngau cymdeithasol. |
| **Tîm Cymru** | - Mae model Tîm Cymru wedi cael ei ddefnyddio yn ystod Pencampwriaethau Ewropeaidd Pêl-droed y Merched yn y Swistir. |
| **Cydweithio â Llywodraeth y DU** | - Cynhaliwyd digwyddiad uchel ei broffil i sector technoleg iechyd Cymru yn Expo 2025 yn Osaka mewn partneriaeth â'r Adran Busnes a Masnach.<br>- Rydym wedi bod yn cyfrannu'n weithredol at ddylunio strategaeth Pŵer Meddal Llywodraeth y DU.<br>Rydym wedi cymryd rhan yn y Sioe Deithiol i Lysgenhadon dan arweiniad y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, gan groesawu i Gymru Lysgenhadon y DU yn Ffrainc, Gwlad Belg ac Oman er mwyn arddangos Cymru a meysydd o ragoriaeth Cymru. |
| **Ymgysylltu Ewropeaidd** | - Cynhaliwyd Cynulliad Cyffredinol EUREGHA yng Nghymru.<br>- Roedd y Dirprwy Brif Weinidog yn bresennol yng nghyfarfod Cynghrair Dan2 ym Mrwsel.<br>Rydym wedi croesawu dau o Lysgenhadon Llywodraeth y DU yng ngwledydd Ewrop fel rhan o Sioe Deithiol y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu i Lysgenhadon. |
| **Ymwybyddiaeth o Gymru** | - Roedd swyddfeydd Gogledd America wedi gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant i gynnal sesiwn friffio arbennig yng Nghyngres yr Unol Daleithiau i dynnu sylw at sector lled-ddargludyddion cyfansawdd Cymru sydd gyda'r gorau yn y byd.<br>- Cynnal Diwrnod Cymru yn Expo Osaka.<br>- Roeddem wedi cymryd rhan yn y Sioe Deithiol i Lysgenhadon dan arweiniad y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, gan groesawu i Gymru Lysgenhadon y DU yn Ffrainc, Gwlad Belg ac Oman er mwyn arddangos Cymru a meysydd o ragoriaeth Cymru. |
| **Cysylltiadau amlochrog** | - Roedd tîm Ffrainc Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag UNESCO UK i gael ei gefnogaeth am y tro cyntaf erioed i Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd. |
| **Gwella canlyniadau gartref** | - Cefnogi Cynhadledd ‘Gwireddu’ y Ddeiseb Heddwch yn Aberystwyth.<br>- Paratoi ar gyfer cydweithio academaidd yn y dyfodol rhwng yr Academi Heddwch a Phrifysgol Georgetown yn Qatar. |
| **Canlyniadau iechyd** | - Roedd taith fasnach a oedd yn canolbwyntio ar iechyd wedi mynd ag 20 cwmni i Japan i gymryd rhan yn yr Expo ac Arddangosfa Iechyd Japan. |

| | |
|---|---|
| | Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cynnal deialog polisi dros ddeuddydd yng Nghaerdydd. Roedd hyn yn rhan o'r Memorandwm Gyd-ddealltwriaeth gyda Sefydliad Iechyd y Byd. |
| **Addysg** | - Mae cynrychiolwyr myfyrwyr o Ogledd America wedi ymweld i ddysgu am ein dull rhyngwladol.<br>- Cynhaliwyd digwyddiad dysgu gan gymheiriaid gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yng Nghaerdydd, a oedd yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth genedlaethol mewn addysg gan groesawu dirprwyaethau o Iwerddon a Denmarc.<br>- Roedd Cymru wedi noddi a chymryd rhan yn y Gyngres Ryngwladol ar Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion.<br>- Mae timau Llywodraeth Cymru yn UDA, Canada ac India wedi cefnogi sectorau addysg bellach ac uwch i sefydlu ac i ddyfnhau partneriaethau. Mae'r cydweithredu hyn yn gwella cysylltiadau sefydliadol, yn hwyluso cyfnewid academaidd, ac yn cryfhau ansawdd a chyrhaeddiad darpariaeth addysg Cymru. |